OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 25

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026

Gwnaed	*2 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*16 Mawrth 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 25

The Infrastructure Consent (Correcting Errors and Applications to Change or Revoke Infrastructure Consent Orders) (Procedure) (Wales) Regulations 2026

Made	*2 February 2026*
Coming into force	*16 March 2026*

£23.70

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea, ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company, and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839795-6
9 780348 397956

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 25

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") yn sefydlu proses ymgeisio a chydsynio unedig i alluogi gwneud ac ystyried ceisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r broses yn gymwys i'r prosiectau seilwaith arwyddocaol a bennir yn Rhan 1 o Ddeddf 2024. Yn fras, prosiectau ynni, trafnidiaeth, gwastraff a dŵr yw'r rhain.

Mae Rhan 6 o Ddeddf 2024 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion cydsyniad seilwaith (gorchmynion sy'n rhoi cydsyniad seilwaith) gan gynnwys darpariaeth sy'n rhoi i Weinidogion Cymru—

(a) pŵer i gywiro gwallau mewn dogfen penderfyniad, sydd wedi ei diffinio yn adran 86 o Ddeddf 2024 fel gorchymyn cydsyniad seilwaith neu hysbysiad sy'n hysbysu ceisydd bod ei gais am gydsyniad seilwaith wedi ei wrthod (adran 87 o Ddeddf 2024), a

(b) pŵer, drwy orchymyn, i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith (adran 90 o Ddeddf 2024).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer cywiro gwall mewn dogfen penderfyniad ac ynghylch y weithdrefn mewn perthynas â cheisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith.

Mae **Rhan 1** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth gyffredinol.

Mae **Rhan 2** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch ymgynghori pan gynigir y dylid cywiro gwall mewn dogfen penderfyniad, rhoi hysbysiad o benderfyniad pa un ai i gywiro gwall ac effaith penderfyniad o'r fath.

Mae **Rhan 3** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn mewn perthynas â gwneud ceisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, gan gynnwys y weithdrefn cyn gwneud cais.

Mae **Rhan 4** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer archwilio cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith pan fo awdurdod archwilio wedi ei benodi o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024.

Mae **Rhan 5** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn pan na fo awdurdod archwilio wedi ei benodi i archwilio cais.

Mae **Rhan 6** o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud penderfyniadau ar geisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ac effaith penderfyniadau o'r fath. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y "diwrnod perthnasol" at ddibenion adran 96(7)(b) o Ddeddf 2024 (heriau cyfreithiol) a'r weithdrefn ar ôl dileu penderfyniad.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 25

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026

Gwnaed	*2 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*16 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 40(5) a (6)(a) i (c), 42(4) a (6), 44(1), (2) a (4), 65(4), 88, 91(1), (3) a (5), 96(7)(b), 140(1) a (2)(**1**) a 141(2) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Cywiro Gwallau a Cheisiadau i Newid neu Ddirymu Gorchmynion Cydsyniad Seilwaith) (Gweithdrefn) (Cymru) 2026 a deuant i rym ar 16 Mawrth 2026.

Dehongli cyffredinol, hysbysiadau, planiau etc.

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "archiad caffael gorfodol" ("*compulsory acquisition request*") yw archiad i awdurdodi caffael yn orfodol dir, neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir;

ystyr "ardal forol Cymru" ("*Welsh marine area*") yw'r môr sy'n gyfagos i Gymru hyd at derfyn atfor y môr tiriogaethol; ac mae'r cwestiwn ynghylch pa rannau o'r môr sy'n gyfagos i Gymru i'w benderfynu yn unol ag erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(**3**);

ystyr "awdurdod archwilio" ("*examining authority*") yw person neu banel o bersonau a benodir o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024 mewn cysylltiad â chais penodol;

(**1**) Am ystyr "Gweinidog priodol" gweler adran 140(4) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3); gweler adran 140(3) fel arall.
(**2**) 2024 dsc 3.
(**3**) O.S. 1999/672.

ystyr “awdurdod cynllunio” (“*planning authority*”) yw’r awdurdod cynllunio lleol o fewn yr ystyr a roddir i “planning authority” gan Ran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**4**) (ond gweler rheoliad 25(2));

ystyr “cais” (“*application*”) yw cais o dan adran 90 o Ddeddf 2024 (ceisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith);

mae i “cais am ddirymiad” (“*application for revocation*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 9(1)(b)(ii);

mae i “cais am newid ansylweddol” (“*application for a non-material change*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 15(1)(b);

mae i “cais am newid sylweddol” (“*application for a material change*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 9(1)(b)(i);

ystyr “ceisydd” (“*applicant*”) yw person sy’n cynnig gwneud cais, neu sydd wedi gwneud cais (yn ôl y digwydd);

ystyr “ceisydd gwreiddiol” (“*original applicant*”) yw, mewn perthynas â gorchymyn cydsyniad seilwaith, y person a wnaeth gais am y gorchymyn;

ystyr “cydsyniad seilwaith” (“*infrastructure consent*”) yw’r cydsyniad sy’n ofynnol gan adran 19 o Ddeddf 2024;

mae i “cyfeirlyfr” (“*book of reference*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 13 o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025;

ystyr “cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais” (“*post-application representation period*”) yw’r cyfnod sy’n dod i ben â’r dyddiad cau a bennir mewn hysbysiad o gais a roddir o dan reoliad 20 neu 21 (yn ôl y digwydd) fel sy’n ofynnol gan reoliad 22(1)(e) mewn cysylltiad â chais penodol;

ystyr “cyfnod ar gyfer sylwadau cyn gwneud cais” (“*pre-application representation period*”) yw’r cyfnod sy’n dod i ben â’r dyddiad cau a bennir mewn hysbysiad o gais arfaethedig a roddir o dan reoliad 9, 10 neu 12 (yn ôl y digwydd) fel sy’n ofynnol gan reoliad 11(1)(k) mewn cysylltiad â chais penodol;

ystyr “Cymru” (“*Wales*”) yw ardal gyfunol y siroedd a’r bwrdeistrefi sirol yng Nghymru (gweler Rhannau 1 a 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)(**5**));

mae i “datblygiad” (“*development*”) yr ystyr a roddir yn adran 133 o Ddeddf 2024;

ystyr “datblygiad AEA” (“*EIA development*”) yw gweithgarwch—

(a) sy’n “datblygiad AEA” fel y’i diffinnir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(**6**), neu

(b) sy’n gwneud asesiad effaith amgylcheddol yn ofynnol yn unol â rheoliad 2A neu Ran 2 o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007(**7**);

ystyr “Deddf 2024” (“*the 2024 Act*”) yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024;

(**4**) 1990 p. 8.
(**5**) 1972 p. 70. Diwygiwyd Rhan 1 gan adran 1(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddi a diwygiwyd Rhan 2 gan adran 1(2) o’r Ddeddf honno a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddi.
(**6**) O.S. 2017/567 (Cy. 136) a ddiwygiwyd gan O.S. 2025/1192 (Cy. 193). Mae diwygiadau eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**7**) O.S. 2007/1518; yr offerynnau diwygio yw O.S. 2011/735, O.S. 2015/446, O.S. 2017/588, O.S. 2019/25 ac O.S. 2025/1192 (Cy. 193).

ystyr “dogfen groesgyfeirio” (“*cross-referencing document*”) yw dogfen ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, neu ar ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg, sy’n croesgyfeirio sylwadau oddi wrth bersonau a chanddynt fuddiant, sy’n dod i law yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau cyn gwneud cais neu’r cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais, â’r cyfeirlyfr;

ystyr “gorchymyn cydsyniad seilwaith” (“*infrastructure consent order*”) yw gorchymyn a wneir o dan Ddeddf 2024 sy’n rhoi cydsyniad seilwaith;

ystyr “y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol” (“*the relevant infrastructure consent order*”) yw’r gorchymyn cydsyniad seilwaith y mae’r cais arfaethedig neu’r cais yn ymwneud ag ef;

ystyr “hawliad perthnasol” (“*relevant claim*”) yw—

(a) hawliad o dan adran 10 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965(**8**) (digolledia pan na wneir iawn am brynu tir yn orfodol neu pan na wneir iawn am effaith niweidiol sy’n deillio o brynu gorfodol);

(b) hawliad o dan Ran 1 o Ddeddf Digolledia Tir 1973(**9**) (digolledia am ddibrisiant yng ngwerth tir gan ffactorau ffisegol a achosir gan ddefnydd o waith cyhoeddus);

(c) hawliad o dan adran 101(3) o Ddeddf 2024;

ystyr “hysbysiad derbyn” (“*notice of acceptance*”) yw hysbysiad a roddir o dan reoliad 7(3);

ystyr “hysbysiad o gais arfaethedig” (“*notice of proposed application*”) yw hysbysiad a roddir yn unol â rheoliad 6;

ystyr “newid ansylweddol” (“*non-material change*”) yw newid i orchymyn cydsyniad seilwaith y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw’n sylweddol;

ystyr “newid sylweddol” (“*material change*”) yw newid i orchymyn cydsyniad seilwaith y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod yn sylweddol;

ystyr “person a chanddo fuddiant” (“*interested person*”) yw, yn achos cais arfaethedig neu gais, person y mae’r ceisydd, ar ôl ymholi’n ddyfal, yn gwybod ei fod yn berson sydd â buddiant yn y tir y mae archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef neu unrhyw ran o’r tir hwnnw;

ystyr “person ychwanegol a chanddo fuddiant” (“*additional interested person*”) yw—

(a) person a chanddo fuddiant na roddwyd hysbysiad o gais arfaethedig iddo yn unol â rheoliad 9(2)(a)(x);

(b) person a chanddo fuddiant na roddwyd hysbysiad o gais iddo yn unol â rheoliad 20;

ystyr “Rheoliadau Caffael Gorfodol 2025” (“*the 2025 Compulsory Acquisition Regulations*”) yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025(**10**);

ystyr “Rheoliadau Ceisiadau 2025” (“*the 2025 Applications Regulations*”) yw Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a’r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025(**11**);

(**8**) 1965 p. 56.
(**9**) 1973 p. 26.
(**10**) O.S. 2025/691 (Cy. 115) a ddiwygiwyd gan O.S. 2025/1091 (Cy. 181).
(**11**) O.S. 2025/690 (Cy. 114) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

mae “sylw” (“*representation*”) yn cynnwys tystiolaeth;

mae “tir” (“*land*”) yn cynnwys adeiladau, henebion a thir sydd wedi ei orchuddio â dyfroedd (gan gynnwys gwely’r môr);

ystyr “y tir perthnasol” (“*the relevant land*”) yw—

(a) yn achos cais arfaethedig neu gais i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith sy’n rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru, y tir y mae’r cais arfaethedig neu’r cais yn ymwneud ag ef, neu unrhyw ran o’r tir hwnnw;

(b) yn achos cais arfaethedig neu gais i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith sy’n rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru, y tir y mae’r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn ymwneud ag ef, neu unrhyw ran o’r tir hwnnw;

ystyr “ymgynghorai arbenigol” (“*specialist consultee*”) yw, pan fo’r cais arfaethedig neu’r cais yn cynnwys archiad i awdurdodi datblygiad o fath a nodir yn ail golofn y tabl yn yr Atodlen, y person a grybwyllir ym mhedwaredd golofn y tabl hwnnw mewn perthynas â’r math hwnnw o ddatblygiad;

ystyr “ymgynghorai arbenigol gwreiddiol” (“*original specialist consultee*”) yw unrhyw berson y rhoddir hysbysiad iddo o dan reoliad 23(1)(b) o Reoliadau Ceisiadau 2025(**12**) am y cais am gydsyniad seilwaith o dan adran 32 o Ddeddf 2024 y mae’r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef;

ystyr “ymgynghorai statudol” (“*statutory consultee*”) yw, pan fo’r cais arfaethedig neu’r cais yn cynnwys archiad i awdurdodi datblygiad o fath a nodir yn ail golofn y tabl yn yr Atodlen, y person a grybwyllir yn nhrydedd golofn y tabl hwnnw mewn perthynas â’r math hwnnw o ddatblygiad;

ystyr “ymgynghorai statudol gwreiddiol” (“*original statutory consultee*”) yw unrhyw berson y rhoddir hysbysiad iddo o dan reoliad 23(1)(a) o Reoliadau Ceisiadau 2025(**13**) am y cais am gydsyniad seilwaith o dan adran 32 o Ddeddf 2024 y mae’r gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef.

(2) Gweler adran 136 o Ddeddf 2024 mewn perthynas â darpariaeth yn y Rheoliadau hyn sy’n ei gwneud yn ofynnol i berson neu sy’n awdurdodi person i—

(a) hysbysu person arall am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson arall (pa un a yw’r ddarpariaeth yn defnyddio’r gair “cyflwyno”, “rhoi” neu derm arall).

(3) Rhaid i unrhyw blaniau neu luniadau sy’n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn fod wedi eu lluniadu ar raddfa a nodir ac yn achos planiau—

(a) pan fo’r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru, rhaid iddynt ddangos cyfeiriad y gogledd, a

(b) pan fo’r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru, rhaid iddynt gynnwys cyfesurynnau sy’n dangos y lleoliad y mae’r cais arfaethedig, neu’r cais, yn ymwneud ag ef.

(4) Ym mharagraff (3), ystyr “cyfesurynnau” yw—

(**12**) O.S. 2025/690 (Cy. 114) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**13**) O.S. 2025/690 (Cy. 114) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(a) cyfesurynnau lledred a hydred gan ddefnyddio System Geodetig y Byd 1984(**14**), neu

(b) cyfesurynnau ar y Grid Cenedlaethol a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans.

(5) Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r weithdrefn at ddibenion adran 65(4) o Ddeddf 2024 (tir y gall awdurdodiad i gaffael yn orfodol ymwneud ag ef) i'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chais arfaethedig neu gais sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol.

RHAN 2

Cywiro gwallau

Cywiro gwallau: ymgynghoriad

3.—(1) Cyn i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 87(2) o Ddeddf 2024 (pŵer i gywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad), rhaid iddynt ymgynghori â'r canlynol—

(a) y ceisydd gwreiddiol,

(b) pan fo'r ddogfen penderfyniad yn ymwneud â rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru, pob awdurdod cynllunio ar gyfer yr ardal y mae'r datblygiad y rhoddwyd cydsyniad seilwaith ar ei gyfer neu y gofynnwyd am gydsyniad seilwaith ar ei gyfer wedi ei leoli ynddi,

(c) pan fo'r ddogfen penderfyniad yn ymwneud â rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru,

(d) pan fo cais ysgrifenedig i gywiro gwall wedi dod i law Gweinidogion Cymru, y person a wnaeth y cais, os na roddwyd hysbysiad i'r person hwnnw o dan is-baragraffau (a) i (c), ac

(e) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(2) Wrth gynnal ymgynghoriad o dan baragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r personau yr ymgynghorir â hwy sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) datganiad bod Gweinidogion Cymru yn ystyried gwneud cywiriad, gan roi rhesymau pam eu bod yn ystyried gwneud y cywiriad, a

(b) manylion y cywiriad arfaethedig.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan baragraff (2), ni chânt arfer y pŵer yn adran 87(2) o Ddeddf 2024 cyn diwedd 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan y paragraff hwnnw.

(4) Yn y Rhan hon, mae i "dogfen penderfyniad" a "gwall" yr un ystyr ag yn adran 86 o Ddeddf 2024.

(**14**) Mae System Geodetig y Byd 1984 yn diffinio ffrâm gyfeirio ar gyfer y ddaear, i'w defnyddio ar gyfer geodeseg a llywio. Fe'i datblygwyd gan National Geospacial-Intelligence Agency yr Unol Daleithiau, sy'n gyfrifol am ei chynnal a'i chadw. Mae System Geodetig y Byd 1984 wedi ei diffinio ym mharagraff 2.1 o National Imagery and Mapping Agency Technical Report TR8350.2 yr Unol Daleithiau, trydydd argraffiad, diwygiad 1 dyddiedig 3 Ionawr 2000 o'r enw "Department of Defense World Geodetic System 1984" https://gis-lab.info/docs/nima-tr 8350.2-wgs84fin.pdf.

Cywiro gwallau: hysbysiad penderfyniad

4.—(1) Yn dilyn ymgynghoriad o dan reoliad 3, rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'u penderfyniad ("hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau") i'r personau yr ymgynghorwyd â hwy o dan y rheoliad hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau—

(a) pennu'r cywiriad i'r gwall, neu

(b) rhoi hysbysiad o'r penderfyniad i beidio â chywiro'r gwall, ac

(c) rhoi rhesymau dros benderfyniad Gweinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau mewn unrhyw fodd y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

(4) Yn y rheoliad hwn a rheoliad 5, mae i "hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau" yr ystyr a roddir ym mharagraff (1).

Cywiro gwallau: effaith penderfyniad

5.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn cywiro gwall mewn dogfen penderfyniad o dan adran 87(2) o Ddeddf 2024—

(a) mae'r penderfyniad gwreiddiol a'r ddogfen penderfyniad sy'n ei gynnwys yn parhau i fod mewn grym,

(b) pan fo'r ddogfen penderfyniad yn hysbysiad o wrthod cydsyniad seilwaith, caiff ei thrin fel pe bai wedi ei chywiro fel y'i pennir yn yr hysbysiad penderfyniad cywiro gwallau gydag effaith o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwnnw, ac

(c) pan fo'r ddogfen penderfyniad yn orchymyn cydsyniad seilwaith, mae'r cywiriad yn cymryd effaith ar y dyddiad a bennir yn y gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 87(4) o Ddeddf 2024.

(2) Os na wneir cywiriad mae'r penderfyniad gwreiddiol a'r ddogfen penderfyniad sy'n ei gynnwys yn parhau i gael effaith.

RHAN 3

Ceisiadau i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith

Pennod 1

Y weithdrefn cyn gwneud cais

Hysbysiad o gais arfaethedig

6.—(1) Rhaid i geisydd hysbysu Gweinidogion Cymru am gais arfaethedig ("hysbysiad o gais arfaethedig").

(2) Rhaid i hysbysiad o gais arfaethedig gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) rhif cyfeirnod y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol,

(b) datganiad yn cadarnhau pa un a yw'r cais arfaethedig yn gais i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith neu'n gais i ddirymu gorchymyn o'r fath,

(c) pan fo'r cais arfaethedig yn gais i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith—

(i) disgrifiad o'r newid, a

(ii) pan fo'r cais arfaethedig yn cynnwys archiad caffael gorfodol, ddatganiad i'r perwyl hwnnw,

(d) pan fo'r cais arfaethedig yn gais i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith—

(i) pan fo'r ceisydd yn awdurdod cynllunio, ddatganiad yn egluro sut y mae'r awdurdod yn ystyried bod yr amodau yn adran 90(4) o Ddeddf 2024 wedi eu bodloni;

(ii) mewn unrhyw achos arall, ddatganiad yn rhoi rhesymau dros y cais arfaethedig, ac

(e) pan fo'r cais arfaethedig yn ymwneud â datblygiad AEA, ddatganiad i'r perwyl hwnnw.

(3) Rhaid i'r canlynol fynd gyda hysbysiad o gais arfaethedig—

(a) unrhyw ddogfennau, planiau neu wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cais arfaethedig, a

(b) unrhyw ffi y mae'n ofynnol ei thalu mewn perthynas â rhoi'r hysbysiad.

Penderfynu ar dderbyn hysbysiad o gais arfaethedig a hysbysu'r ceisydd

7.—(1) Pan ddaw hysbysiad o gais arfaethedig i law Gweinidogion Cymru, rhaid iddynt benderfynu pa un ai i dderbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru dderbyn hysbysiad o gais arfaethedig os yw'n cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan reoliad 6.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn derbyn yr hysbysiad o gais arfaethedig, rhaid iddynt roi hysbysiad o'u penderfyniad i'r ceisydd ("hysbysiad derbyn") o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r hysbysiad o gais arfaethedig ddod i law.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys yn yr hysbysiad derbyn—

(a) dyddiad yr hysbysiad, a

(b) os yw'r cais arfaethedig yn gais i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith, ddatganiad ynghylch pa un a yw'r newid yn newid sylweddol neu'n newid ansylweddol.

(5) Pan fo'r cais arfaethedig yn gais i wneud newid ansylweddol, caiff Gweinidogion Cymru gynnwys darpariaeth yn yr hysbysiad derbyn—

(a) bod yr hysbysiad o gais arfaethedig i'w drin fel cais, a

(b) nad yw'n ofynnol i'r ceisydd gydymffurfio â rheoliad 15.

(6) Os nad yw Gweinidogion Cymru yn derbyn yr hysbysiad o gais arfaethedig, rhaid iddynt roi hysbysiad o'u penderfyniad i'r ceisydd, gan roi rhesymau dros y penderfyniad, o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y daw'r hysbysiad o gais arfaethedig i law.

Gwefan

8.—(1) Pan fo hysbysiad derbyn wedi ei roi, rhaid i'r ceisydd gyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn ar wefan—

(a) copi o'r hysbysiad o gais arfaethedig, gan gynnwys unrhyw ddogfennau, planiau neu wybodaeth arall a aeth gyda'r hysbysiad o gais arfaethedig, a

(b) copi o'r hysbysiad derbyn.

(2) Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r hysbysiad derbyn ddod i law.

Hysbysiadau a chyhoeddusrwydd cais arfaethedig am newid sylweddol neu ddirymiad: datblygiad yng Nghymru

9.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) hysbysiad derbyn wedi ei roi,

(b) y cais arfaethedig naill ai

(i) yn gais pan fo'r hysbysiad derbyn yn cadarnhau bod y cais arfaethedig yn ymwneud â newid sylweddol ("cais am newid sylweddol"), neu

(ii) yn gais i ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith ("cais am ddirymiad"), ac

(c) y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru.

(2) Rhaid i'r ceisydd—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i—

(i) unrhyw berson sydd â hawlogaeth i wneud cais o dan adran 90(3) o Ddeddf 2024, os nad y ceisydd yw'r person hwnnw,

(ii) unrhyw berson a fyddai â hawlogaeth neu a allai fod â hawlogaeth i wneud hawliad perthnasol, pe bai'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol i gael ei newid fel y gofynnwyd amdano yn y cais arfaethedig a'i weithredu'n llawn,

(iii) unrhyw un sy'n berchen ar dir neu sy'n feddiannydd ar dir sy'n ffinio â'r tir perthnasol,

(iv) pob awdurdod cynllunio ar gyfer ardal o'r tir perthnasol, os nad y ceisydd yw'r awdurdod cynllunio hwnnw,

(v) os yw'r tir perthnasol wedi ei leoli mewn ardal â chyngor cymuned, y cyngor cymuned,

(vi) pob Aelod o'r Senedd sy'n cynrychioli ardal o'r tir perthnasol,

(vii) pob Aelod o Dŷ'r Cyffredin sy'n cynrychioli ardal o'r tir perthnasol,

(viii) unrhyw ymgyngoreion statudol ac arbenigol,

(ix) yn achos cais arfaethedig am ddirymiad, yr holl ymgyngoreion statudol ac arbenigol gwreiddiol,

(x) pan fo'r cais arfaethedig yn cynnwys archiad caffael gorfodol, unrhyw berson a chanddo fuddiant,

(xi) yn achos cais arfaethedig am ddirymiad pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol, unrhyw berson a hysbysir o dan reoliad 5(2), 7(2) neu 15(2) o Reoliadau Caffael Gorfodol 2025, a

(xii) unrhyw berson arall y mae'r ceisydd yn ystyried ei fod yn briodol,

(b) arddangos hysbysiad mewn man amlwg ar neu ger y tir perthnasol am o leiaf 4 wythnos ("hysbysiad safle"), ac

(c) cyhoeddi hysbysiad mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal leol y tir perthnasol am o leiaf 7 niwrnod.

(3) Rhaid arddangos hysbysiad safle bob 5 km o leiaf oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny pan fo—

(a) y cais arfaethedig yn ymwneud â chynllun llinellol sy'n fwy na 5 km o hyd,

(b) yn achos cais arfaethedig am ddirymiad, y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud â chynllun llinellol sy'n fwy na 5 km o hyd.

(4) Pan fo hysbysiad safle, heb fod bai ar y ceisydd, yn cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno cyn diwedd y cyfnod o 4 wythnos, caiff y ceisydd ei drin fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion paragraffau (2)(b) a (3) os yw wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad safle ac, os oes angen, wedi ei amnewid.

(5) Rhaid i hysbysiad a roddir, a arddangosir neu a gyhoeddir o dan y rheoliad hwn gynnwys yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 11.

Hysbysiadau a chyhoeddusrwydd cais arfaethedig am newid sylweddol neu ddirymiad: datblygiad yn ardal forol Cymru

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) hysbysiad derbyn wedi ei roi,

(b) y cais arfaethedig yn gais am newid sylweddol neu'n gais am ddirymiad, ac

(c) y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru.

(2) Rhaid i'r ceisydd—

(a) rhoi hysbysiad ysgrifenedig i –

(i) unrhyw berson sydd â hawlogaeth i wneud cais o dan adran 90(3) o Ddeddf 2024, os nad y ceisydd yw'r person hwnnw,

(ii) Cyfoeth Naturiol Cymru,

(iii) unrhyw awdurdod cynllunio y mae'r ceisydd yn ystyried ei fod yn briodol,

(iv) unrhyw gyngor cymuned y mae'r ceisydd yn ystyried ei fod yn briodol,

(v) unrhyw Aelod o'r Senedd y mae'r ceisydd yn ystyried ei fod yn briodol,

(vi) unrhyw Aelod o Dŷ'r Cyffredin y mae'r ceisydd yn ystyried ei fod yn briodol,

(vii) unrhyw ymgyngoreion statudol ac arbenigol,

(viii) yn achos cais arfaethedig am ddirymiad, yr holl ymgyngoreion statudol ac arbenigol gwreiddiol, a

(ix) unrhyw berson arall y mae'r ceisydd yn ystyried ei fod yn briodol, a

(b) cyhoeddi hysbysiad am o leiaf 7 niwrnod—

(i) mewn un neu ragor o bapurau newydd lleol sy'n debygol o ddod i sylw'r rheini y mae'r gorchymyn a geisir yn y cais arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt,

(ii) mewn o leiaf un cyfnodolyn pysgota priodol os oes un mewn cylchrediad, a

(iii) yn Lloyd's List.

(3) Rhaid i hysbysiad a roddir neu a gyhoeddir o dan y rheoliad hwn gynnwys yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 11.

Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiadau o dan reoliadau 9, 10 a 12

11.—(1) Rhaid i hysbysiadau a roddir, a arddangosir neu a gyhoeddir o dan reoliadau 9, 10 a 12 gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) manylion cyswllt y ceisydd, gan gynnwys cyfeiriad post ac e-bost a rhif ffôn,

(b) rhif cyfeirnod y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol,

(c) datganiad bod y ceisydd yn bwriadu gwneud cais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad (yn ôl y digwydd),

(d) os yw'r cais arfaethedig yn gais am newid sylweddol, ddisgrifiad o'r newid,

(e) os yw'r cais arfaethedig yn gais am ddirymiad—

(i) pan fo'r ceisydd yn awdurdod cynllunio, ddatganiad yn egluro sut y mae'r awdurdod yn ystyried bod yr amodau yn adran 90(4) o Ddeddf 2024 wedi eu bodloni;

(ii) ym mhob achos arall, ddatganiad yn rhoi rhesymau dros y cais arfaethedig,

(f) pan fo'r cais arfaethedig yn ymwneud â datblygiad AEA, ddatganiad i'r perwyl hwnnw,

(g) os yw'r cais arfaethedig yn cynnwys archiad caffael gorfodol—

(i) datganiad i'r perwyl hwnnw, a

(ii) manylion y tir sydd wedi ei gynnwys yn yr archiad caffael gorfodol,

(h) manylion y wefan o dan reoliad 8 a chyfeiriad lle y gellir gweld dogfennau a gyhoeddir ar y wefan honno,

(i) y dyddiad diweddaraf y bydd copïau o ddogfennau a phlaniau ar gael i'w gweld —

(i) ar y wefan o dan reoliad 8, a

(ii) yn y cyfeiriad y cyfeirir ato yn is-baragraff (h),

(j) manylion ynghylch sut y mae sylwadau ar y cais arfaethedig i'w cyflwyno, a

(k) y dyddiad diweddaraf erbyn pryd y mae rhaid i sylwadau ar y cais arfaethedig ddod i law.

(2) Rhaid i'r dyddiad diweddaraf y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(i) a (k) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl pa un bynnag yw'r diweddaraf o'r dyddiadau a ganlyn—

(a) y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad,

(b) y dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad am y tro cyntaf, neu

(c) y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad am y tro cyntaf.

Hysbysiad o gais arfaethedig: personau ychwanegol a chanddynt fuddiant

12.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) cais arfaethedig am newid sylweddol yn cynnwys archiad caffael gorfodol, a

(b) y ceisydd yn nodi person ychwanegol a chanddo fuddiant.

(2) Rhaid i'r ceisydd roi hysbysiad ysgrifenedig o'r cais arfaethedig i unrhyw berson ychwanegol a chanddo fuddiant o fewn 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad y nodir y person.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1) gynnwys yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 11.

Dyletswydd i ystyried ymatebion i hysbysiadau a chyhoeddusrwydd

13.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo cais arfaethedig naill ai—

(a) yn gais am ddirymiad, neu

(b) yn gais am newid sylweddol.

(2) Wrth benderfynu pa un ai i wneud cais ar yr un telerau â'r cais arfaethedig, rhaid i'r ceisydd ystyried unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau cyn gwneud cais.

Pennod 2

Y weithdrefn gwneud cais

Y cyfnod y mae rhaid gwneud ceisiadau o'i fewn

14.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid gwneud cais i Weinidogion Cymru o fewn 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad derbyn sy'n ymwneud â chais arfaethedig.

(2) Estynnir y cyfnod y mae rhaid gwneud cais o'i fewn o dan baragraff (1) 28 o ddiwrnodau os—

(a) rhoddir hysbysiad o'r cais arfaethedig i berson ychwanegol a chanddo fuddiant o dan reoliad 12, a

(b) rhoddir yr hysbysiad hwnnw o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r dyddiad ar gyfer gwneud cais o dan baragraff (1).

Ceisiadau am newid ansylweddol

15.—(1) Mae'r rheoliad hwn a rheoliad 16 yn gymwys pan—

(a) bo hysbysiad derbyn wedi ei roi,

(b) bo'r hysbysiad derbyn mewn perthynas â'r cais arfaethedig penodol yn cadarnhau bod y cais arfaethedig yn ymwneud â newid ansylweddol ("cais am newid ansylweddol"), ac

(c) na fo'r hysbysiad derbyn mewn perthynas â'r cais arfaethedig penodol yn cynnwys darpariaeth o dan reoliad 7(5) bod hysbysiad o gais arfaethedig y ceisydd i'w drin fel cais.

(2) Rhaid i gais am newid ansylweddol—

(a) bod ar y ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu ffurflen sydd ag effaith sylweddol debyg,

(b) bod yr un fath neu'n sylweddol yr un fath â'r cais arfaethedig, ac

(c) cynnwys—

(i) y materion a bennir yn y ffurflen,

(ii) unrhyw ddogfennau, lluniadau a phlaniau sy'n berthnasol i'r cais,

(iii) datganiad yn cadarnhau, mewn perthynas â'r ceisydd—

(aa) ai'r ceisydd gwreiddiol ydyw neu olynydd yn nheitl y person hwnnw,

(bb) a yw'n berson a chanddo fuddiant yn y tir y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn ymwneud ag ef, neu

(cc) a yw'n unrhyw berson arall y mae'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn cael effaith er ei fudd, a

(iv) unrhyw ffi sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wneud y cais.

(3) Pan wneir cais yn electronig caiff Gweinidogion Cymru ofyn i'r ceisydd adneuo un copi caled o'r cais gyda hwy.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i gais ddod i law—

(a) rhoi hysbysiad i'r ceisydd bod y cais wedi dod i law;

(b) cyhoeddi'r cais ar wefan gan gynnwys unrhyw ddogfennau, lluniadau a phlaniau.

Ceisiadau am newid ansylweddol: hysbysiadau a chyhoeddusrwydd

16.—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i hysbysiad o dan reoliad 15(4)(a) ddod i law, rhaid i'r ceisydd—

(a) rhoi hysbysiad o'r cais i—

(i) unrhyw berson sydd â hawlogaeth i wneud cais o dan adran 90(3) o Ddeddf 2024, os nad y ceisydd yw'r person hwnnw, a

(ii) unrhyw berson arall y gall y newid a gynigir yn y cais effeithio'n uniongyrchol arno;

(b) cyhoeddi hysbysiad o'r cais am o leiaf 7 niwrnod mewn un neu ragor o bapurau newydd lleol sy'n debygol o ddod i sylw'r rheini y mae'r newid a gynigir yn y cais yn debygol o effeithio arnynt.

(2) Rhaid i hysbysiadau a roddir neu a gyhoeddir o dan baragraff (1) gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) manylion cyswllt y ceisydd, gan gynnwys cyfeiriad post ac e-bost a rhif ffôn,

(b) datganiad bod y ceisydd wedi gwneud cais am newid ansylweddol,

(c) disgrifiad o'r newid ansylweddol arfaethedig, a

(d) manylion gwefan (os oes un) a chyfeiriad lle y gellir gweld y cais, gan gynnwys unrhyw ddogfennau, lluniadau a phlaniau.

(3) Rhaid i'r ceisydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cymryd y camau ym mharagraff (1), roi i Weinidogion Cymru—

(a) datganiad yn nodi'r camau y mae'r ceisydd wedi eu cymryd i gydymffurfio â pharagraff (1), a

(b) copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r datganiad a'r hysbysiad y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) ddod i law, roi hysbysiad i'r ceisydd eu bod wedi dod i law.

(5) Nid oes angen i Weinidogion Cymru ystyried y cais hyd nes bod y datganiad a'r hysbysiad y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) wedi dod i law.

Ceisiadau am newid sylweddol neu ddirymiad

17.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad.

(2) Rhaid i gais—

(a) cael ei wneud ar y ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu ffurflen sydd ag effaith sylweddol debyg, a

(b) cynnwys—

(i) y materion a bennir yn y ffurflen,

(ii) adroddiad cyhoeddusrwydd cyn gwneud cais,

(iii) plan yn nodi'r lleoliad y mae'r cais yn ymwneud ag ef,

(iv) pan fo'n gymwys, ddatganiad amgylcheddol,

(v) pan fo cais yn cynnwys archiad caffael gorfodol—

(aa) cyfeirlyfr,

(bb) datganiad o'r rhesymau yn cyfiawnhau'r archiad caffael gorfodol,

(cc) datganiad cyllid yn egluro sut y mae'r caffaeliad gorfodol i'w ariannu,

(dd) plan yn nodi unrhyw dir y mae'r archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef, gan gynnwys y tir hwnnw a fyddai'n cael ei ddiogelu rhag cael ei ddatblygu, unrhyw dir y byddai hawliau preifat drosto yn cael eu diddymu ac unrhyw dir amnewid neu dir categori arbennig, ac

(ee) dogfen groesgyfeirio, a

(vi) unrhyw ddogfennau, lluniadau a phlaniau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "datganiad amgylcheddol" yr ystyr a roddir—

(i) i "environmental statement" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007, mewn achos pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru;

(ii) yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017, mewn achos pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru;

(b) ystyr "adroddiad cyhoeddusrwydd cyn gwneud cais" yw adroddiad sy'n rhoi manylion ynghylch—

(i) y sylwadau a ddaeth i law—

(aa) yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau cyn gwneud cais, a

(bb) ar ôl rhoi hysbysiad i unrhyw berson ychwanegol a chanddo fuddiant o dan reoliad 12, a

(ii) yr ystyriaeth a roddwyd i'r sylwadau hynny;

(c) mae i "tir amnewid" yr ystyr a roddir yn adran 70 (tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael tir yn orfodol) neu 71 (tiroedd comin, mannau agored etc.: caffael hawliau dros dir yn orfodol) o Ddeddf 2024 (yn ôl y digwydd);

(d) ystyr "tir categori arbennig" yw tir y nodir ei fod yn ffurfio rhan o dir comin, man agored, tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, neu randir tanwydd neu ardd gae.

Penderfynu ar ddilysrwydd cais am newid sylweddol neu ddirymiad a hysbysu'r ceisydd

18.—(1) Pan ddaw cais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad i law Gweinidogion Cymru, rhaid iddynt benderfynu pa un ai i dderbyn y cais fel cais dilys ai peidio.

(2) Mae cais yn gais dilys—

(a) os yw'n dod i law Gweinidogion Cymru o fewn y cyfnod a bennir yn rheoliad 14;

(b) os yw'n cydymffurfio â gofynion rheoliad 17.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn derbyn y cais rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'r penderfyniad i'r ceisydd.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu na ellir derbyn y cais rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'u penderfyniad i'r ceisydd gan roi rhesymau dros eu penderfyniad.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o dan baragraff (3) neu (yn ôl y digwydd) (4) o fewn 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y daw'r cais i law Gweinidogion Cymru.

Estyn yr amserlen ar gyfer dilysu cais am newid sylweddol neu ddirymiad

19.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd sy'n estyn yr amserlen ar gyfer dilysu cais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud cyfarwyddyd o dan baragraff (1), rhaid iddynt ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd yn pennu'r dyddiad erbyn pryd y gwneir penderfyniad ar ddilysrwydd y cais.

Ceisiadau am newid sylweddol neu ddirymiad: hysbysiadau a chyhoeddusrwydd

20.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn derbyn cais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad fel cais dilys.

(2) Rhaid i'r ceisydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i hysbysiad o dan reoliad 18(3) ddod i law—

(a) cyhoeddi'r cais ar wefan, gan gynnwys unrhyw ddogfennau, planiau neu wybodaeth arall, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r hysbysiad o dan reoliad 18(3) ddod i law, a

(b) pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru, roi, arddangos a chyhoeddi hysbysiad o'r cais yn unol â pharagraff (3), neu

(c) pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru, roi a chyhoeddi hysbysiad o'r cais yn unol â pharagraff (4).

(3) Rhaid i'r ceisydd roi, arddangos a chyhoeddi hysbysiad o'r cais yn yr un modd ag y mae'n ofynnol rhoi, arddangos a chyhoeddi hysbysiad o gais arfaethedig o dan reoliad 9(2) i (4), ond fel pe bai pob cyfeiriad at "cais arfaethedig" yn y rheoliad hwnnw yn darllen "cais".

(4) Rhaid i'r ceisydd roi a chyhoeddi hysbysiad o'r cais yn yr un modd ag y mae'n ofynnol rhoi a chyhoeddi hysbysiad o gais arfaethedig o dan reoliad 10(2), ond fel pe bai pob cyfeiriad at "cais arfaethedig" yn y rheoliad hwnnw yn darllen "cais".

(5) Rhaid i hysbysiad a roddir, a arddangosir neu a gyhoeddir o dan y rheoliad hwn gynnwys yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 22.

Hysbysiad o gais: personau ychwanegol a chanddynt fuddiant

21.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) y cais yn cynnwys archiad caffael gorfodol, a

(b) y ceisydd yn nodi person ychwanegol a chanddo fuddiant.

(2) Rhaid i'r ceisydd roi hysbysiad o'r cais i unrhyw berson ychwanegol a chanddo fuddiant o fewn 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad y nodir y person.

(3) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan y rheoliad hwn gynnwys yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 22.

Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiadau o dan reoliadau 20 ac 21 a hysbysu Gweinidogion Cymru am sylwadau

22.—(1) Rhaid i hysbysiadau a roddir, a arddangosir neu a gyhoeddir o dan reoliadau 20 ac 21 gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 11(a), (b), (d) i (g), a (j) ond fel pe bai pob cyfeiriad at "cais arfaethedig" yn y rheoliad hwnnw yn darllen "cais",

(b) datganiad bod y ceisydd wedi gwneud cais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad (yn ôl y digwydd),

(c) manylion y wefan o dan reoliad 20(2)(a) a chyfeiriad lle y gellir gweld dogfennau a gyhoeddir ar y wefan honno,

(d) y dyddiad diweddaraf y bydd copïau o ddogfennau a phlaniau ar gael i'w gweld —

(i) ar y wefan o dan reoliad 20(2)(a), a

(ii) yn y cyfeiriad y cyfeirir ato yn is-baragraff (c), ac

(e) y dyddiad diweddaraf erbyn pryd y mae rhaid i sylwadau ar y cais ddod i law.

(2) Rhaid i'r dyddiad diweddaraf y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(d) ac (e) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl pa un bynnag yw'r diweddaraf o'r dyddiadau a ganlyn—

(a) y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad,

(b) y dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad am y tro cyntaf, neu

(c) y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad am y tro cyntaf.

(3) Rhaid i'r ceisydd roi i Weinidogion Cymru—

(a) copïau o unrhyw sylwadau ar y cais a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw;

(b) copïau o unrhyw sylwadau a ddaeth i law ar y cais oddi wrth bersonau ychwanegol a chanddynt fuddiant y rhoddwyd hysbysiad iddynt o dan reoliad 21, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i bob un o'r sylwadau ddod i law.

Cyfeirlyfr a dogfen groesgyfeirio: diweddaru

23.—(1) Rhaid i'r manylion a gynhwysir ym mhob rhan o'r cyfeirlyfr a ddarperir o dan reoliad 17 gael eu diweddaru gan y ceisydd hyd at y dyddiad y cyhoeddir penderfyniad ar y cais o dan reoliad 61(4).

(2) Pan fo'r ceisydd yn diweddaru'r manylion yn y cyfeirlyfr, rhaid iddo roi hysbysiad o'r newid i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Pan ddaw sylwadau ar gais oddi wrth berson a chanddo fuddiant neu berson ychwanegol a chanddo fuddiant i law ceisydd, rhaid iddo ddiweddaru'r ddogfen groesgyfeirio a ddarperir o dan reoliad 17 hyd at y dyddiad y cyhoeddir penderfyniad ar y cais o dan reoliad 61(4).

(4) Pan fo ceisydd yn diweddaru'r ddogfen groesgyfeirio, rhaid iddo ddarparu'r ddogfen wedi ei diweddaru i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad y daeth y sylw i law.

RHAN 4

Y weithdrefn archwilio

Pennod 1

Cyffredinol

Cymhwyso'r Rhan

24. Mae'r Rhan hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penodi person neu banel o bersonau i archwilio cais o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024.

Dehongli Rhan 4 ac ymchwiliad a gaiff ei ailagor

25.—(1) Yn y Rhan hon—

ystyr "amserlen" ("*timetable*") yw amserlen mewn perthynas â'r cais a lunnir yn unol â rheoliad 33;

ystyr "cyfnod ar gyfer sylwadau" ("*representation period*") yw'r cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais mewn cysylltiad â chais penodol;

ystyr "dyfarniad o'r weithdrefn" ("*determination of procedure*") yw dyfarniad o dan adran 42(1) o Ddeddf 2024 neu reoliad 31(2);

ystyr "o bell" ("*remotely*") yw drwy gyfrwng—

(a) cyswllt ffôn byw,

(b) cyswllt fideo byw, neu

(c) unrhyw gyfarpar arall neu gyfleuster arall sy'n galluogi personau nad ydynt yn yr un lle i gyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol;

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel o bersonau a benodir i archwilio cais o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024;

ystyr "sylwadau ysgrifenedig" ("*written representations*") yw sylwadau ysgrifenedig cychwynnol ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach;

ystyr "sylwadau ysgrifenedig cychwynnol" ("*initial written representations*") yw sylwadau a wnaed ar y cais yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau;

ystyr "sylwadau ysgrifenedig pellach" ("*further written representations*") yw sylwadau ar y cais a wneir yn unol â rheoliad 40.

(2) Yn y Rhan hon mae cyfeiriadau at "yr awdurdod cynllunio"(**15**)—

(a) pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yng Nghymru, yn gyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio ar gyfer ardal o'r tir perthnasol;

(b) pan fo'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru, yn gyfeiriadau at yr awdurdod cynllunio sydd agosaf at yr ardal y mae'r cais yn ymwneud â hi.

(3) Yn y Rhan hon ac yn rheoliad 67—

ystyr "parti a chanddo fuddiant" ("*interested party*") yw—

(**15**) Gweler rheoliad 2(1) am ystyr "awdurdod cynllunio".

(a) y ceisydd;

(b) unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig cychwynnol mewn cysylltiad â chais penodol;

(c) pan fo archwiliad yn ymwneud â chais sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol, unrhyw berson a nodir yn y cyfeirlyfr;

ystyr "sylwadau pellach" ("*further representations*") yw sylwadau llafar neu ysgrifenedig yn ychwanegol at sylwadau ysgrifenedig cychwynnol.

(4) Pan fo gwrandawiad neu ymchwiliad lleol yn cael ei ailagor o dan y Rheoliadau hyn neu o dan Ddeddf 2024, mae darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe na bai'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad wedi ei gau.

Pennod 2

Yr awdurdod archwilio etc.

Penodi panel yn awdurdod archwilio

26.—(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn penodi panel o bersonau fel yr awdurdod archwilio, rhaid iddo benodi un o'i aelodau i gadeirio'r panel.

(2) Nid yw newid i aelodaeth neu gadeiryddiaeth panel, na sedd wag mewn cysylltiad ag aelodaeth neu gadeiryddiaeth panel, yn effeithio ar—

(a) y materion a wnaed gan y panel, neu mewn perthynas â'r panel, cyn y newid hwnnw;

(b) hunaniaeth barhaus y panel.

Amnewid panel neu berson fel awdurdod archwilio

27.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg—

(a) rhoi person yn lle panel;

(b) rhoi panel newydd yn lle panel;

(c) rhoi panel yn lle person;

(d) rhoi person newydd yn lle person.

(2) Caiff yr awdurdod archwilio newydd drin pethau a wnaed gan yr awdurdod archwilio blaenorol, neu mewn perthynas ag ef, fel pe baent wedi eu gwneud, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan y panel newydd hwnnw neu mewn perthynas ag ef.

Hysbysiad o awdurdod archwilio

28.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y ceisydd a'r awdurdod cynllunio yn cael eu hysbysu am enw a manylion cyswllt yr awdurdod archwilio a benodir—

(a) yn achos y penodiad cyntaf, o fewn 7 niwrnod sy'n dechrau â'r dyddiad y gwneir y penodiad;

(b) yn achos unrhyw benodiad dilynol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw newid mewn perthynas â'r awdurdod archwilio.

(3) Rhaid i'r person sy'n cyflawni rôl yr awdurdod archwilio neu gadeirydd y panel sy'n cyflawni rôl yr awdurdod archwilio gyhoeddi ei benodiad, ei enw a'r dull o gysylltu ag ef ar ddechrau gwrandawiad neu ymchwiliad lleol.

Dyrannu swyddogaethau gan banel

29.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo panel yn cael ei benodi i archwilio cais.

(2) Caiff y panel ddyrannu unrhyw ran o'r archwiliad i unrhyw un neu ragor o'i aelodau.

(3) Pan fo'r panel yn gwneud dyraniad o dan baragraff (2)—

(a) caiff unrhyw beth a wneir gan y panel, neu iddo, mewn cysylltiad â'r rhan o'r archwiliad a ddyrannwyd, gael ei wneud gan yr aelod o dan sylw neu iddo neu gan y panel, a

(b) caiff canfyddiadau a chasgliadau'r aelod o dan sylw eu trin fel canfyddiadau a chasgliadau'r panel.

(4) Mae paragraff (3)(b) yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad gan y panel a wnaed ar adeg y dyraniad neu cyn y dyraniad, o ran statws unrhyw ganfyddiadau neu gasgliadau o'r fath.

Gwneud penderfyniadau gan banel

30.—(1) Rhaid i banel wneud penderfyniadau drwy gytundeb y mwyafrif o'i aelodau.

(2) Os nad yw aelodau panel yn gallu dod i benderfyniad drwy gytundeb y mwyafrif o'i aelodau pan fo nifer yr aelodau'n eilrif, mae gan gadeirydd y panel bleidlais fwrw.

Pennod 3

Paratoi ar gyfer archwiliad a'i reoli

Dyfarniad o'r weithdrefn

31.—(1) Rhaid i'r awdurdod archwilio arfer ei swyddogaeth o dan adran 42(1) o Ddeddf 2024 (dyfarniad o'r weithdrefn) cyn—

(a) pan fo'r cais yn cynnwys archiad caffael gorfodol a bod yr awdurdod archwilio'n cynnig y dylid archwilio'r cais heblaw mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, ddiwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf y cyfnod ar gyfer sylwadau, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, ddiwedd 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf y cyfnod ar gyfer sylwadau.

(2) Caiff awdurdod archwilio amrywio dyfarniad o'r weithdrefn ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais sy'n cael ei archwilio o dan reoliad 61.

Cyfarfod ynghylch y weithdrefn archwilio: caffael gorfodol

32.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo—

(a) y cais sydd i'w archwilio yn cynnwys archiad caffael gorfodol, a

(b) yr awdurdod archwilio yn cynnig dyfarnu y dylid archwilio'r archiad caffael gorfodol heblaw mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio gynnal cyfarfod cyn dyfarnu'r weithdrefn ar gyfer archwilio'r cais.

(3) Rhaid i'r awdurdod archwilio wahodd y canlynol i'r cyfarfod—

(a) y ceisydd;

(b) pob person a nodir yn y cyfeirlyfr mewn cysylltiad â'r cais penodol;

(c) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried y dylid rhoi gwybod yn rhesymol iddo am y cyfarfod.

(4) Rhaid i'r gwahoddiad—

(a) datgan pa un a yw'r cyfarfod i gael ei gynnal yn rhannol neu'n gyfan gwbl o bell a darparu manylion ynghylch sut y gellir bod yn bresennol yn y cyfarfod;

(b) pennu dyddiad ac amser y cyfarfod, y mae rhaid iddo fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y rhoddir y gwahoddiad;

(c) gofyn i bob person a nodir yn y cyfeirlyfr mewn cysylltiad â'r cais penodol gyflwyno sylwadau am y weithdrefn ar gyfer archwilio'r archiad caffael gorfodol.

(5) Caiff unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i'r cyfarfod gyflwyno sylwadau, ynghylch y weithdrefn ar gyfer archwilio'r archiad caffael gorfodol, yn ysgrifenedig cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal neu yn y cyfarfod.

(6) Caiff yr awdurdod archwilio gynnal y cyfarfod yn absenoldeb unrhyw berson y rhoddwyd gwahoddiad iddo os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

(7) Rhaid i'r awdurdod archwilio lunio nodyn o'r cyfarfod a sicrhau ei fod ar gael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i unrhyw berson a fu'n bresennol yn y cyfarfod neu y rhoddwyd gwahoddiad i'r cyfarfod iddo.

Yr amserlen ar gyfer archwiliad

33.—(1) Yn achos archwilio cais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad, pan fydd yr awdurdod archwilio wedi gwneud dyfarniad o'r weithdrefn, rhaid iddo lunio amserlen ar gyfer archwilio'r cais.

(2) Rhaid i'r amserlen a gaiff ei llunio o dan baragraff (1) nodi—

(a) y dyddiad erbyn pryd y caiff y ceisydd gyflwyno sylwadaeth ar unrhyw sylwadau ysgrifenedig cychwynnol sy'n berthnasol i archwilio'r cais,

(b) y pynciau y mae angen unrhyw sylwadau pellach arnynt,

(c) y personau (os oes rhai) sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno sylwadau pellach ar unrhyw fater,

(d) pa rai o unrhyw sylwadau pellach sydd i'w gwneud yn ysgrifenedig, mewn gwrandawiad neu mewn ymchwiliad lleol,

(e) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach,

(f) y dyddiad erbyn pryd y caiff y ceisydd gyflwyno sylwadaeth ysgrifenedig ar unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach sy'n berthnasol i archwilio'r cais,

(g) y dyddiad erbyn pryd y mae'r awdurdod archwilio yn bwriadu adrodd o dan adran 52 o Ddeddf 2024 (adroddiad i Weinidogion Cymru) neu reoliad 51(2) (adroddiad penderfynu), ac

(h) unrhyw ddyddiad arall y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn rheoli'r archwiliad yn effeithlon.

(3) Caiff yr awdurdod archwilio lunio amserlen ar gyfer archwilio cais am newid ansylweddol.

(4) Caiff yr awdurdod archwilio, os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, amrywio amserlen a luniwyd o dan y rheoliad hwn ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar y cais o dan Bennod 2 o Ran 6 o'r Rheoliadau hyn.

Hysbysiad o ddewis o weithdrefn a'r amserlen

34.—(1) Rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r canlynol am unrhyw ddyfarniad o'r weithdrefn, yr amserlen gychwynnol neu amrywiad i amserlen—

(a) y ceisydd,

(b) yr awdurdod cynllunio, ac

(c) unrhyw berson arall sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach.

(2) Caiff yr awdurdod archwilio hysbysu unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol am unrhyw ddyfarniad o'r weithdrefn, amserlen neu amrywiad i amserlen.

(3) Rhaid i'r awdurdod archwilio roi unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod o 5 niwrnod gwaith, sy'n dechrau—

(a) yn achos unrhyw ddyfarniad o'r weithdrefn, â'r diwrnod ar ôl y dyfarniad o'r weithdrefn;

(b) yn achos amserlen gychwynnol, â'r diwrnod ar ôl y dyfarniad o'r weithdrefn o dan adran 42(1) o Ddeddf 2024;

(c) yn achos amrywiad i amserlen, â'r diwrnod ar ôl yr amrywiad i'r amserlen.

Amseru a lleoliad gwrandawiad neu ymchwiliad lleol a chyfranogi ynddo

35.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol.

(2) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu pwy sydd i'w wahodd i gyflwyno sylwadau pellach mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol ond rhaid iddo wahodd y ceisydd i wneud hynny.

(3) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu—

(a) lle a phryd i gynnal y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol;

(b) ai i'w gynnal (neu gynnal unrhyw ran ohono) o bell.

(4) I'r graddau y cynhelir gwrandawiad neu ymchwiliad lleol heb fod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o bell, rhaid i'r awdurdod archwilio roi sylw i ddymunoldeb ei gynnal mor agos â phosibl at y lleoliad y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

(5) Rhaid i'r awdurdod archwilio ddechrau gwrandawiad neu ymchwiliad lleol heb fod yn hwyrach na 10 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer sylwadau, oni bai—

(a) bod y ceisydd yn cytuno fel arall, neu

(b) bod paragraff (6) yn gymwys.

(6) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo unrhyw un neu ragor o'r canlynol wedi digwydd—

(a) mae'r awdurdod archwilio—

(i) wedi gwneud dyfarniad bod y cais i'w archwilio ar sail y cais ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig, a

(ii) yn gwneud dyfarniad pellach o dan reoliad 31(2),

(b) mae'r awdurdod archwilio wedi penderfynu na fydd y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol yn digwydd yn gyfan gwbl o bell ac na ellir sicrhau lleoliad addas ar ddyddiad i gydymffurfio â pharagraff (5), neu

(c) mae'r awdurdod archwilio wedi penderfynu bod angen sylwadau ysgrifenedig pellach o dan reoliad 40 cyn y gall y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol ddechrau, ac ni ellir yn rhesymol eu darparu mewn pryd i gydymffurfio â pharagraff (5).

(7) Pan fo paragraff (6) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod archwilio ddechrau'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (5).

(8) Rhaid i'r awdurdod archwilio roi o leiaf 6 wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r canlynol o ddyddiad, amser dechrau a lleoliad y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol—

(a) y ceisydd,

(b) yr awdurdod cynllunio,

(c) unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, a

(d) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod archwilio yn ystyried ei fod yn briodol.

Cyhoeddusrwydd ar gyfer gwrandawiad neu ymchwiliad lleol

36.—(1) Pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio drwy wrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid i'r ceisydd gyhoeddi ac arddangos hysbysiad o'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid cyhoeddi hysbysiad sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal leol y tir perthnasol heb fod yn hwyrach na 4 wythnos cyn diwrnod cyntaf y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol—

(a) disgrifiad o'r cais,

(b) disgrifiad o leoliad y tir perthnasol,

(c) dyddiad ac amser y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(d) lleoliad y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(e) manylion unrhyw drefniadau ar gyfer darlledu'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(f) y pynciau sydd i'w harchwilio yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol,

(g) manylion lle yn yr ardal leol lle y gellir edrych ar y cais a'r sylwadau ysgrifenedig cychwynnol ar bob adeg resymol, ac

(h) cyfeiriad y wefan lle y gellir dod o hyd i'r cais a'r sylwadau ysgrifenedig cychwynnol.

(3) Rhaid arddangos hysbysiad sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2) ("hysbysiad safle") mewn man amlwg ar neu ger y tir perthnasol, am o leiaf 4 wythnos cyn diwrnod cyntaf y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol.

(4) Rhaid arddangos hysbysiad safle bob 5 km o leiaf oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny pan fo—

(a) y cais yn ymwneud â chynllun llinellol sy'n fwy na 5 km o hyd;

(b) yn achos cais am ddirymiad, y gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud â chynllun llinellol sy'n fwy na 5 km o hyd.

(5) Pan fo hysbysiad safle, heb fod bai ar y ceisydd, yn cael ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno cyn diwedd y cyfnod o 4 wythnos, caiff y ceisydd ei drin fel pe bai wedi cydymffurfio â pharagraffau (3) a (4) os yw wedi cymryd camau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad, ac, os oes angen, wedi ei amnewid.

(6) Rhaid i'r ceisydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) anfon copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd o dan baragraff (2) i'r awdurdod archwilio, a

(b) cadarnhau i'r awdurdod archwilio fod yr hysbysiad sy'n ofynnol gan baragraffau (3) a (4) wedi ei arddangos a darparu ffotograff o'r hysbysiad hwnnw wedi ei osod yn ei le.

(7) Os yw'r gorchymyn cydsyniad seilwaith perthnasol yn rhoi cydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru, mae cyfeiriadau at "y tir perthnasol" i'w darllen fel cyfeiriadau at dir yng Nghymru sydd agosaf at yr ardal y mae'r cais yn ymwneud â hi.

Datganiadau ysgrifenedig o dystiolaeth

37.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach mewn ymchwiliad lleol yn cynnig rhoi tystiolaeth yn yr ymchwiliad, neu'n cynnig galw ar berson arall i roi tystiolaeth yn yr ymchwiliad.

(2) Gall yr awdurdod archwilio ei gwneud yn ofynnol i'r person lunio datganiad ysgrifenedig o'r dystiolaeth honno.

(3) Rhaid i'r person sy'n llunio'r datganiad ysgrifenedig ddarparu crynodeb o'r datganiad ysgrifenedig os yw'n fwy na 1,500 o eiriau.

(4) Ni chaiff y crynodeb y cyfeirir ato ym mharagraff (3) fod yn fwy na 1,500 o eiriau.

(5) Rhaid i'r person sy'n llunio'r datganiad ysgrifenedig anfon copi o'r datganiad ysgrifenedig ac unrhyw grynodeb i'r awdurdod archwilio erbyn y dyddiad a bennir yn yr amserlen.

(6) Rhaid i'r awdurdod archwilio, cyn gynted â phosibl ar ôl i'r datganiad ysgrifenedig ac unrhyw grynodeb ddod i'w law—

(a) anfon copi o'r dogfennau hynny at bob person sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach yn yr ymchwiliad, a

(b) sicrhau bod copi o'r dogfennau hynny ar gael ar y wefan y cyfeirir ati yn rheoliad 38.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "datganiad ysgrifenedig" yw datganiad a lunnir yn unol â pharagraff (2).

Darparu gwefan

38. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu gwefan lle y gellir dod o hyd i gopïau o'r cais a dogfennau eraill sy'n berthnasol i'r archwiliad.

Pennod 4

Archwiliad

Sylwadau ysgrifenedig cychwynnol

39.—(1) Mae archwiliad yr awdurdod archwilio o'r cais i gynnwys ystyriaeth o unrhyw sylwadau ysgrifenedig cychwynnol.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio sicrhau bod y ceisydd yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadaeth ar unrhyw sylw ysgrifenedig cychwynnol sy'n berthnasol i'r archwiliad.

Ceisio sylwadau ysgrifenedig pellach

40.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio ofyn am sylwadau pellach yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg gan unrhyw barti a chanddo fuddiant.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n darparu sylwadau pellach yn ysgrifenedig o dan baragraff (1) eu darparu o fewn 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r awdurdod archwilio yn gofyn amdanynt.

(3) Caiff yr awdurdod archwilio estyn y terfyn amser ym mharagraff (2) mewn achos penodol.

(4) Ni chaiff unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach fod yn fwy na 3,000 o eiriau.

(5) Rhaid i'r awdurdod archwilio roi cyfle i'r ceisydd i gyflwyno sylwadaeth ar unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach sy'n berthnasol i archwilio'r cais.

(6) Rhaid i'r awdurdod archwilio sicrhau bod copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach ar gael ar y wefan y cyfeirir ati yn rheoliad 38.

Y dull o gynnal gwrandawiad

41.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn gwrandawiad.

(2) Yr awdurdod archwilio sydd i lywyddu yn y gwrandawiad ac sydd i benderfynu—

(a) sut i'w reoli;

(b) y pynciau sydd i'w trafod;

(c) yr amser a ddyrennir i'r pynciau hynny.

(3) Mae gwrandawiad i gymryd ffurf trafodaeth a arweinir gan yr awdurdod archwilio.

(4) Ar ddechrau'r gwrandawiad, rhaid i'r awdurdod archwilio—

(a) crynhoi'r pynciau y bydd y gwrandawiad yn eu harchwilio, a

(b) nodi unrhyw bynciau pellach y bydd y gwrandawiad yn eu harchwilio na chawsant eu nodi mewn unrhyw amserlen ar gyfer yr archwiliad.

(5) Caiff yr awdurdod archwilio holi person sy'n bresennol yn y gwrandawiad, ond ni chaiff person sy'n bresennol yn y gwrandawiad holi person arall sy'n bresennol mewn gwrandawiad ac eithrio pan fo paragraff (6) yn gymwys.

(6) Caiff yr awdurdod archwilio ganiatáu i berson sy'n cyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad ("P") holi person arall sy'n cyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad os yw'r awdurdod archwilio yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau—

(a) bod unrhyw sylw yn cael ei brofi'n ddigonol, neu

(b) bod gan P gyfle teg i wneud ei achos.

(7) Wrth gynnal y gwrandawiad, caiff yr awdurdod archwilio yn benodol—

(a) bwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb person a gafodd ei wahodd i fod yn bresennol;

(b) gwrthod caniatáu sylwadau y mae'n ystyried eu bod yn amherthnasol neu'n ailadroddus;

(c) gwahardd person sy'n aflonyddu;

(d) gwrthod caniatáu i berson sydd wedi ei wahardd am aflonyddu i ddychwelyd;

(e) caniatáu i berson sydd wedi ei wahardd am aflonyddu i ddychwelyd, yn ddarostyngedig i amodau penodedig;

(f) gohirio'r gwrandawiad;

(g) gwahodd unrhyw berson sy'n cyflwyno sylwadau yn y gwrandawiad i gyflwyno cyflwyniadau cloi yn ysgrifenedig.

(8) Rhaid i berson sy'n cyflwyno cyflwyniadau cloi o dan baragraff (7)(g) eu rhoi i'r awdurdod archwilio o fewn 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf y gwrandawiad.

(9) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio gwrandawiad, rhaid iddo roi rhybudd rhesymol o ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r gwrandawiad gohiriedig, oni bai bod paragraff (10) yn gymwys.

(10) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio gwrandawiad ac yn cyhoeddi yn y gwrandawiad ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r gwrandawiad gohiriedig, nid oes angen unrhyw rybudd pellach.

(11) Yn y rheoliad hwn a rheoliad 42, ystyr "cyflwyniadau cloi" yw crynodeb o'r prif bwyntiau ffeithiol a'r prif ddadleuon a wneir gan y person sy'n eu cyflwyno, mewn perthynas â chais.

Y dull o gynnal ymchwiliad lleol

42.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r awdurdod archwilio yn dyfarnu bod cais i'w archwilio, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn ymchwiliad lleol.

(2) Yr awdurdod archwilio sydd i lywyddu mewn ymchwiliad lleol ac sydd i benderfynu—

(a) sut i'w reoli;

(b) y pynciau sydd i'w harchwilio drwy ymchwiliad lleol;

(c) yr amser a ddyrennir i'r pynciau hynny.

(3) Ar ddechrau'r ymchwiliad lleol, rhaid i'r awdurdod archwilio—

(a) crynhoi'r pynciau y bydd yr ymchwiliad yn eu harchwilio, a

(b) nodi unrhyw bynciau pellach y bydd yr ymchwiliad yn eu harchwilio na chawsant eu nodi mewn unrhyw amserlen ar gyfer yr archwiliad.

(4) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu ar y drefn y gelwir ar bersonau i roi tystiolaeth mewn ymchwiliad lleol.

(5) Caiff unrhyw berson sy'n cael ei wahodd i roi tystiolaeth mewn ymchwiliad lleol ofyn i'r awdurdod archwilio alw ar berson arall i roi tystiolaeth.

(6) Mae gan berson sy'n cymryd rhan mewn ymchwiliad lleol hawlogaeth i groesholi person arall sy'n rhoi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad.

(7) Rhaid i'r awdurdod archwilio ganiatáu i berson sy'n cael ei groesholi mewn ymchwiliad lleol gael ei ailholi.

(8) Wrth gynnal yr ymchwiliad lleol, caiff yr awdurdod archwilio yn benodol—

(a) bwrw ymlaen â'r ymchwiliad yn absenoldeb person a gafodd ei wahodd i fod yn bresennol;

(b) gwrthod caniatáu tystiolaeth y mae'n ystyried ei bod yn amherthnasol neu'n ailadroddus;

(c) gwahardd person sy'n aflonyddu;

(d) gwrthod caniatáu i berson sydd wedi ei wahardd am aflonyddu i ddychwelyd;

(e) caniatáu i berson sydd wedi ei wahardd am aflonyddu i ddychwelyd, yn ddarostyngedig i amodau penodedig;

(f) gohirio'r ymchwiliad;

(g) ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cyflwyniadau cloi yn ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod olaf yr ymchwiliad.

(9) Caiff unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo adael ymchwiliad lleol gyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i'r awdurdod archwilio cyn i'r ymchwiliad ddod i ben.

(10) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio ymchwiliad lleol, rhaid iddo roi rhybudd rhesymol o ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r ymchwiliad lleol gohiriedig, oni bai bod paragraff (11) yn gymwys.

(11) Os yw'r awdurdod archwilio yn gohirio ymchwiliad lleol ac yn cyhoeddi yn yr ymchwiliad lleol hwnnw ddyddiad, amser a lleoliad ailddechrau'r ymchwiliad lleol gohiriedig, nid oes angen unrhyw rybudd pellach.

Cyfarfodydd, gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol rhithiol

43. Rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu personau sy'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfarfod, neu i gyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, sy'n digwydd o bell, am y trefniadau i'w galluogi i wneud hynny, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Darlledu gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol

44.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio drefnu i ddelweddau neu synau o wrandawiad neu ymchwiliad lleol gael eu darlledu er mwyn galluogi personau nad ydynt yn cyflwyno sylwadau mewn gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, neu unrhyw ran ohono, i wylio'r trafodion neu wrando arnynt.

(2) Caiff y trefniadau a wneir o dan baragraff (1) gynnwys trefniadau ar gyfer darlledu na roddir mynediad atynt i unigolion onid ydynt wedi rhoi gwybod pwy ydynt i'r awdurdod archwilio yn gyntaf.

(3) Cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid i'r awdurdod archwilio ystyried—

(a) yr angen i drafodion fod yn agored ac yn dryloyw, cyn belled ag y bo modd,

(b) unrhyw archiadau i ddarlledu'r trafodion, ac

(c) i ba raddau y mae'r adnoddau technegol a dynol a'r adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i hwyluso arsylwi yn effeithiol drwy ddarlledu ar gael neu y gallant fod ar gael.

(4) Rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r canlynol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am unrhyw drefniadau i ddarlledu gwrandawiad neu ymchwiliad lleol—

(a) pob parti a chanddo fuddiant, a

(b) unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

(5) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 48 o Ddeddf 2024.

Recordio gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol

45.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio drefnu i ddelweddau neu synau o wrandawiad neu ymchwiliad lleol gael eu recordio er mwyn galluogi personau i wylio'r trafodion neu wrando arnynt yn ddiweddarach.

(2) Caiff unrhyw berson ofyn am fynediad gan yr awdurdod archwilio at unrhyw recordiad a wneir o dan baragraff (1) ar unrhyw adeg cyn diwedd 6 mis sy'n dechrau—

(a) yn achos gorchymyn sy'n gwneud newid i orchymyn cydsyniad seilwaith, neu'n dirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, â'r dyddiad y gwneir y gorchymyn, neu

(b) yn achos gwrthod cais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith, y dyddiad y rhoddir hysbysiad o wrthodiad i'r ceisydd o dan reoliad 62 neu 63 (yn ôl y digwydd).

(3) Rhaid i awdurdod archwilio ddarparu mynediad at unrhyw recordiad ar delerau rhesymol ac o fewn amser rhesymol i unrhyw archiad o dan baragraff (2).

(4) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 48 o Ddeddf 2024.

Hysbysiad o benodiadau i gynorthwyo awdurdod archwilio

46.—(1) Rhaid i'r awdurdod archwilio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu pob person sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach am enw—

(a) unrhyw asesydd a benodir i'w gynorthwyo o dan adran 50 o Ddeddf 2024, a

(b) unrhyw fargyfreithiwr neu gyfreithiwr a benodir i'w gynorthwyo o dan adran 51 o Ddeddf 2024.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu pob person sy'n cael ei wahodd i gyflwyno sylwadau pellach am y materion y mae unrhyw asesydd wedi ei benodi i gynorthwyo mewn perthynas â hwy.

Cyfyngu ar fynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad lleol

47. Mewn perthynas â thystiolaeth a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 48(2) o Ddeddf 2024, mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at y person a gynrychiolir, pa un ai fel y "ceisydd" neu fel "parti a chanddo fuddiant", i'w darllen fel rhai sy'n cynnwys cyfeiriadau at gynrychiolydd a benodir o dan adran 48(4) neu (5) o Ddeddf 2024.

Cyfarfodydd rheoli archwiliad

48.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio gynnal cyfarfod ar unrhyw adeg cyn y penderfynir ar gais, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

(2) Diben cyfarfod rheoli archwiliad yw galluogi'r awdurdod archwilio i benderfynu—

(a) beth y gellir ei wneud i sicrhau bod yr archwiliad a materion paratoadol neu ddilynol sy'n ymwneud ag ef yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn hwylus, a

(b) pa drefniadau ymarferol i'w gwneud mewn perthynas â'r archwiliad a materion paratoadol neu ddilynol sy'n ymwneud ag ef.

(3) Yr awdurdod archwilio sydd i lywyddu mewn cyfarfod rheoli archwiliad ac sydd i benderfynu—

(a) lle a phryd i gynnal y cyfarfod,

(b) pa un ai i gynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o bell,

(c) sut i reoli'r cyfarfod,

(d) y materion sydd i'w trafod, ac

(e) yr amser a ddyrennir i'r materion hynny.

(4) Yr awdurdod archwilio sydd i benderfynu pwy i'w wahodd i unrhyw gyfarfod rheoli archwiliad, ond rhaid iddo wahodd y ceisydd.

(5) Rhaid i'r awdurdod archwilio roi rhybudd rhesymol o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod rheoli archwiliad i bob person sy'n cael ei wahodd i fod yn bresennol.

(6) Rhaid i'r hysbysiad o'r cyfarfod rheoli archwiliad bennu dibenion y cyfarfod ac unrhyw fater y mae'r awdurdod archwilio yn dymuno ei drafod.

(7) Os yw person sy'n cael ei wahodd i'r cyfarfod rheoli archwiliad, neu ei gynrychiolydd, yn methu â bod yn bresennol neu'n amharod i fod yn bresennol, neu nad yw'n bresennol fel arall, caiff y cyfarfod fynd yn ei flaen.

(8) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod rheoli archwiliad, rhaid i'r awdurdod archwilio lunio nodyn o'r cyfarfod a'i roi i'r bobl a gafodd eu gwahodd i fod yn bresennol.

(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfarfod rheoli archwiliad" yw cyfarfod a gynhelir o dan baragraff (1).

Pennod 5

Y weithdrefn ar ôl sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad ac ymchwiliad lleol

Adroddiad yr asesydd

49. Pan fo asesydd wedi ei benodi o dan adran 50 o Ddeddf 2024, rhaid i'r asesydd gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r awdurdod archwilio ar y materion y cafodd ei benodi mewn cysylltiad â hwy i gynorthwyo'r awdurdod archwilio.

Symud ymlaen i adroddiad neu benderfyniad

50.—(1) Caiff yr awdurdod archwilio gyflwyno adroddiad o dan adran 52(2) o Ddeddf 2024 gan ddiystyru unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach a dogfennau ategol a gyflwynwyd ar ôl y terfyn amser o dan reoliad 40.

(2) Caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) symud ymlaen i benderfyniad gan ddiystyru unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach a dogfennau ategol a gyflwynwyd ar ôl y terfyn amser o dan reoliad 40.

(3) Caiff yr awdurdod archwilio, ar ôl rhoi hysbysiad i'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio o'i fwriad i wneud hynny, gyflwyno adroddiad o dan adran 52(2) o Ddeddf 2024, er na chyflwynwyd unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach o fewn y terfyn amser o dan reoliad 40, os yw'n ymddangos iddo fod ganddo ddigon o ddeunydd ger ei fron i wneud argymhelliad o ran y penderfyniad ar y cais.

(4) Caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd), ar ôl rhoi hysbysiad i'r ceisydd a'r awdurdod cynllunio o'i fwriad neu eu bwriad i wneud hynny, symud ymlaen i benderfyniad er na chyflwynwyd unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach o fewn y terfyn amser o dan reoliad 40, os yw'n ymddangos iddo neu iddynt fod ganddo neu ganddynt ddigon o ddeunydd ger ei fron neu ger eu bron i wneud penderfyniad ar y cais.

Cais i'w benderfynu gan yr awdurdod archwilio

51.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ar ôl i archwiliad gael ei gwblhau, pan fo'r awdurdod archwilio i benderfynu ar gais.

(2) Rhaid i'r awdurdod archwilio ysgrifennu adroddiad.

(3) Rhaid i'r adroddiad—

(a) pan fo asesydd wedi ei benodi o dan adran 50 o Ddeddf 2024, ddatgan a yw'r awdurdod archwilio yn anghytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr asesydd a'r rheswm dros unrhyw anghytundeb,

(b) cynnwys canfyddiadau a chasgliadau'r awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r cais, ac

(c) cynnwys penderfyniad yr awdurdod archwilio mewn cysylltiad â'r cais.

(4) Os yw'r awdurdod archwilio yn cynnig ystyried unrhyw dystiolaeth newydd neu ffaith newydd cyn gwneud penderfyniad ar y cais, rhaid i'r awdurdod archwilio roi hysbysiad i'r holl bartïon a chanddynt fuddiant o'r cynnig a'r rhesymau drosto.

(5) Pan fo'r archwiliad wedi digwydd yn gyfan gwbl drwy sylwadau ysgrifenedig, rhaid i'r awdurdod archwilio roi cyfle i bob parti a chanddo fuddiant i gyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig ar y dystiolaeth newydd honno neu'r ffaith newydd honno erbyn dyddiad penodedig.

(6) Pan fo unrhyw ran o'r archwiliad wedi digwydd drwy wrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r partïon a chanddynt fuddiant—

(a) y gallant ei gwneud yn ofynnol i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol gael ei ailagor i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd, a

(b) o'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r partïon a chanddynt fuddiant hysbysu'r awdurdod archwilio am unrhyw archiad i ailagor yr archwiliad i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(7) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (5) neu (6)(b) fod o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan baragraff (4), os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan baragraff (4), mewn unrhyw achos arall.

(8) Mewn perthynas â'r awdurdod archwilio—

(a) rhaid iddo ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd os yw parti a chanddo fuddiant yn gofyn iddo wneud hynny o dan baragraff (6), neu

(b) fel arall caiff, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol, ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(9) Pan fo'r awdurdod archwilio yn ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid iddo anfon at y partïon a chanddynt fuddiant, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir tystiolaeth bellach mewn cysylltiad â hwy.

(10) Rhaid i'r awdurdod archwilio ddarparu'r datganiad ysgrifenedig ym mharagraff (9) o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, mewn unrhyw achos arall.

Cais i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru

52.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ar ôl i archwiliad o gais gael ei gwblhau, pan fo Gweinidogion Cymru i benderfynu ar gais.

(2) Pan fo asesydd wedi ei benodi o dan adran 50 o Ddeddf 2024 yn ychwanegol at y gofynion yn adran 52(2) o Ddeddf 2024, rhaid i adroddiad yr awdurdod archwilio i Weinidogion Cymru ddatgan a yw'r awdurdod archwilio yn anghytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr asesydd a'r rheswm dros unrhyw anghytundeb.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru—

(a) yn anghytuno â'r awdurdod archwilio ar unrhyw fater o ffaith a grybwyllwyd mewn casgliad gan yr awdurdod archwilio, neu yr ymddengys i Weinidogion Cymru ei fod yn berthnasol i gasgliad o'r fath, neu

(b) yn cynnig ystyried unrhyw dystiolaeth newydd neu fater o ffaith newydd.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ddod i benderfyniad sy'n groes i argymhelliad yr awdurdod archwilio, heb gymryd y camau a nodir ym mharagraffau (5) i (7) yn gyntaf.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu pob parti a chanddo fuddiant—

(a) am y gwahaniaeth yn eu barn hwy a'u rhesymau drosto, neu

(b) am y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(6) Pan fo'r archwiliad wedi digwydd yn gyfan gwbl drwy sylwadau ysgrifenedig, rhaid i'r awdurdod archwilio roi cyfle i bob parti a chanddo fuddiant i gyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig ar y gwahaniaeth barn hwnnw, y dystiolaeth newydd honno neu'r ffaith newydd honno erbyn dyddiad penodedig.

(7) Pan fo unrhyw ran o'r archwiliad wedi digwydd drwy wrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r partïon a chanddynt fuddiant—

(a) y cânt ei gwneud yn ofynnol i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol gael ei ailagor i archwilio'r gwahaniaeth barn, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd, a

(b) o'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r partïon a chanddynt fuddiant hysbysu'r awdurdod archwilio am unrhyw archiad i ailagor yr archwiliad i archwilio'r gwahaniaeth barn, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(8) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan baragraff (6) neu (7)(b) fod o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan baragraff (5), os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan baragraff (5), mewn unrhyw achos arall.

(9) Mewn perthynas â'r awdurdod archwilio—

(a) rhaid iddo ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r gwahaniaeth barn, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd os yw parti a chanddo fuddiant yn gofyn iddo wneud hynny o dan baragraff (7), neu

(b) fel arall caiff, os yw'n ystyried bod hynny'n briodol, ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol i archwilio'r gwahaniaeth barn, y dystiolaeth newydd neu'r ffaith newydd.

(10) Pan fo'r awdurdod archwilio yn ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol, rhaid iddo anfon at y partïon a chanddynt fuddiant, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir sylwadau pellach mewn cysylltiad â hwy.

(11) Rhaid i'r awdurdod archwilio ddarparu'r datganiad ysgrifenedig ym mharagraff (10) o leiaf—

(a) 28 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, os yw'r cais yn ymwneud â datblygiad AEA;

(b) 21 o ddiwrnodau cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad lleol a gaiff ei ailagor, mewn unrhyw achos arall.

Cyfarwyddyd i ailagor yr archwiliad

53. Pan fo'r awdurdod archwilio yn ailagor gwrandawiad neu ymchwiliad lleol yn unol â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 53(1) o Ddeddf 2024, rhaid iddo

anfon at y partïon a chanddynt fuddiant, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddatganiad ysgrifenedig o'r materion y gwahoddir tystiolaeth bellach mewn cysylltiad â hwy.

Cynnig i wneud gorchymyn sy'n sylweddol wahanol

54.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnig gwneud gorchymyn o dan adran 90(1) o Ddeddf 2024—

(a) ar delerau sydd yn eu barn hwy yn sylweddol wahanol i'r rhai a gynigir yn y cais, a

(b) pa un ai o ganlyniad i hysbysiad o dan reoliad 61(2) ai peidio.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) hysbysu unrhyw berson y mae'n ymddangos iddynt y mae'r gorchymyn yn debygol o effeithio arno,

(b) rhoi cyfle i'r person hwnnw i gyflwyno sylwadau iddynt am y gwahaniaethau o fewn amser a bennir yn yr hysbysiad hwnnw, ac

(c) ystyried y sylwadau a wneir yn ystod yr amser a bennir yn yr hysbysiad hwnnw, cyn gwneud gorchymyn o dan adran 90(1) o Ddeddf 2024.

RHAN 5

Y weithdrefn pan nad oes archwiliad

Y weithdrefn pan nad oes archwiliad

55.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan na fo awdurdod archwilio wedi ei benodi o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024 i archwilio cais penodol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r personau a bennir ym mharagraff (4) nad yw'r cais i'w archwilio gan awdurdod archwilio.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o dan baragraff (2)—

(a) yn achos cais am newid ansylweddol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r hysbysiad a'r datganiad y cyfeirir atynt yn rheoliad 16(3) ddod i law;

(b) yn achos cais am newid sylweddol neu gais am ddirymiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais mewn cysylltiad â'r cais penodol.

(4) Y personau sydd i'w hysbysu o dan baragraff (2) yw—

(a) y ceisydd,

(b) unrhyw bersonau a gyflwynodd sylwadau ar y cais yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau ar ôl gwneud cais, ac

(c) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (2) gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) datganiad nad yw'r cais i'w archwilio gan awdurdod archwilio,

(b) y rhesymau pam y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen i'r cais gael ei archwilio gan awdurdod archwilio,

(c) manylion ynghylch sut y gellir cyflwyno sylwadau pellach ar y cais, a

(d) y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i sylwadau pellach ar y cais ddod i law, y mae rhaid iddo fod o leiaf 28 o ddiwrnodau ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r hysbysiad o dan baragraff (2) ar wefan.

RHAN 6

Penderfyniadau a her gyfreithiol etc.

Pennod 1

Ceisiadau: penderfynwr, polisïau statudol a materion perthnasol eraill, ac amserlen

Swyddogaeth penderfynu ar gais

56.—(1) Pan fo awdurdod archwilio wedi ei benodi o dan adran 40(2) o Ddeddf 2024 i archwilio cais penodol, yr awdurdod archwilio sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar y cais hwnnw.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (3).

(3) Mewn perthynas ag unrhyw gais, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo mai hwy sydd â'r swyddogaeth o benderfynu ar y cais yn lle awdurdod archwilio.

Penderfynu ar geisiadau i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith: ystyriaethau cyffredinol

57.—(1) Wrth benderfynu ar gais i newid gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad i awdurdodi datblygiad, rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd)—

(a) rhoi sylw i—

(i) unrhyw ddatganiad polisi seilwaith sy'n cael effaith mewn perthynas â'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef ("datganiad polisi perthnasol");

(ii) Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru(**16**) i'r graddau y bo'n berthnasol i'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(iii) unrhyw gynllun morol (o fewn yr ystyr a roddir i "marine plan" yn adran 51(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**17**)) sydd wedi ei lunio a'i fabwysiadu gan Weinidogion Cymru i'r graddau y bo'n berthnasol i'r math o ddatblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a

(b) gwneud ei benderfyniad neu eu penderfyniad (yn ôl y digwydd) yn unol â'r datganiad polisi perthnasol, y fframwaith neu'r cynllun oni fo ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall.

(2) Nid yw'r ffaith bod unrhyw ddatganiad polisi perthnasol, fframwaith neu gynllun yn nodi bod lleoliad yn addas (neu y gallai fod yn addas) ar gyfer math penodol o ddatblygiad yn rhwystro Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio (yn ôl y digwydd) rhag penderfynu ar gais ac eithrio yn unol â'r datganiad polisi perthnasol, y fframwaith neu'r cynllun os yw ystyriaethau perthnasol yn dangos fel arall.

(3) Yn y rheoliad hwn a rheoliad 59, mae i "datganiad polisi seilwaith" yr ystyr a roddir gan adran 127(2) o Ddeddf 2024.

(**16**) Gweler adran 60 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5).
(**17**) 2009 p. 23.

Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau

58. Wrth benderfynu ar gais, rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) roi sylw i—

(a) unrhyw archwiliad a gynhelir o dan Ran 4 o'r Rheoliadau hyn;

(b) dymunoldeb lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo;

(c) unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

Materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau

59. Wrth benderfynu ar gais, caiff Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio ddiystyru sylwadau os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried, neu os yw'r awdurdod archwilio yn ystyried (yn ôl y digwydd), fod y sylwadau—

(a) yn flinderus neu'n wacsaw,

(b) yn ymwneud â rhinweddau polisi a nodir—

(i) mewn datganiad polisi seilwaith,

(ii) yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, neu

(iii) mewn unrhyw gynllun morol (o fewn yr ystyr a roddir i "marine plan" yn adran 51(3) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009) sydd wedi ei lunio a'i fabwysiadu gan Weinidogion Cymru, neu

(c) yn ymwneud â digolledu am gaffael yn orfodol dir neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir.

Yr amserlen ar gyfer penderfynu ar gais

60.—(1) Pan na fo awdurdod archwilio yn archwilio cais, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar gais cyn diwedd 8 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad o dan reoliad 55(2).

(2) Pan fo awdurdod archwilio â'r swyddogaeth o benderfynu ar gais, rhaid iddo benderfynu ar y cais cyn diwedd 12 wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl—

(a) pan na fo cais yn cael ei archwilio ond ar sail y cais ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig, y diwrnod y mae'r awdurdod archwilio yn gorffen archwilio'r cais ac unrhyw sylwadau ysgrifenedig;

